# Cofnodion Cyfarfod 15/1/2026

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Jacqueline Allen, Huw Symonds, Eifion Roberts, Rhys Evans, Eluned Jones, Ken Edwards, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Sion McGuiness.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Fe estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, ac fe ddymunodd flwyddyn newydd dda i bawb.

2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 11/12/25.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

   i. Ymddiswyddiad y Cyng Fiona Hopkins: Derbyniwyd llythyr gan y Cyng Fiona Hopkins yn nodi ei bod yn ymddiswyddo o'i rôl fel aelod o'r Cyngor Tref. Cytunwyd i ysgrifennu at Fiona i ddiolch iddi am ei holl waith. Cytunwyd hefyd i hysbysebu'r cyfle i alw etholiad i lenwi'r sedd wag.

   ii. Sedd Wag Flaenorol y Cyngor: Eglurwyd fod modd i'r cyngor gyfethol aelod newydd. Adroddwyd fod dau enw wedi dod i law, ac yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i gyfethol Tomos Ffrancon, sy'n gweithio fel cyfreithiwr yn y Bala. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu hefo Tomos ac i gwblhau'r ffurflenni priodol.

   iii. Parc Cenedlaethol Eryri – Trefniadau Parcio ger Llyn Tegid: Derbyniwyd ymateb pellach gan Brif Weithredwr y Parc Cenedlaethol yn dilyn y trafodaethau diweddar ar drefniadau a chostau parcio ger Llyn Tegid. Cytunwyd i wneud cais i'r Parc i ganiatáu parcio am ddim i drigolion lleol ardal cod post LL23 er mwyn creu ewyllys da yn lleol.

   iv. Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd: Nodwyd y bydd angen rhai twls i gynnal a chadw safle Ffynnon Beuno, ac fe awgrymwyd y gellid gwneud defnydd o arfau garddio yr ardd gymunedol.

   v. Grant Gwynedd Ni: Rhoddwyd adroddiad ar y gwaith o osod raciau beics a bocsys blodau ychwanegol i'r dref, a pholyn fflag i faes parcio'r Grin. Nodwyd fod y grant yn cael ei brosesu gan Gyngor Gwynedd a bod angen bwrw ymlaen i osod yr offer. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Asedau gyfarfod i wneud y trefniadau yma.

vi. Gwaith Celf y Bala: Rhoddwyd adroddiad ar y trafodaethau i adleoli gwaith celf Canolfan Cywain i safle gyhoeddus yn ardal y Bala. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Asedau i drafod y cynllun ymhellach, ac fe nodwyd Cronfa Gymunedol y Parc Cenedlaethol fel ffynhonnell ariannol bosibl.
vii. Palmentydd y dref: Derbyniwyd ymateb gan NMWTRA yn nodi eu bod yn archwilio cyflwr palmentydd ger y Llew Gwyn, a'u bod hefyd wedi anfon sylwadau'r cyngor ar gyflwr cyffredinol palmentydd y dref i'r adran berthnasol o Lywodraeth Cymru.
viii. Toiledau Cyhoeddus: Derbyniwyd ymateb pellach gan Gyngor Gwynedd i sylwadau'r cyngor ar gostau cynnal a chadw blynyddol y toiledau cyhoeddus, gyda'r ymateb yn cynnig dwy opsiwn bosibl wrth symud ymlaen. Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i dderbyn Opsiwn A, sef i'r costau gynyddu dros dair blwyddyn ariannol – hyn yn lleihau'r effaith ar gyllideb a phraesept blynyddol y Cyngor Tref.

5. **Cyngor Gwynedd:** Adroddwyd fod gwelliannau sylweddol yn cael ei wneud i goed y Stryd Fawr, hyn yn cynnwys ail-wynebu 16 coeden a chyfnewid pedair arall sydd wedi dirywio.
6. **Is-bwyllgorau:**

**Is bwyllgor Asedau:** Adroddwyd fod angen trwsio'r ciosg ger Canolfan Bro Tegid ble lleolir y deffib, a bod cais wedi ei wneud i adeiladwr lleol i wneud y gwaith yma. Cytunwyd fod angen rhestr o leoliad gwahanol offer deffib y dref, gyda manylion am y corff sy'n gyfrifol am wirio cyflwr yr offer.

**Is bwyllgor Cyllid:** Cafwyd adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 7fed Ionawr 2026, ynghyd ag argymhellion ariannol am y flwyddyn ariannol 2026/2027. Cytunwyd i fabwysiadu'r argymhellion, sef:

a) I osod cyllideb gwariant nett y cyngor o £34,322.
b) I osod praesept y cyngor o £30,000, hyn yn golygu gwneud defnydd o £4,322 o falensau ariannol y cyngor, ac yn golygu treth cyngor o £37.18 i gartref Band D.
c) I godi cyflog y clerc yn unol â Graddfa 22 NALC o fis Ionawr 2026 ymlaen.
d) I ystyried rhoi cyfraniad ariannol i Theatr Derek Williams sy'n cyfateb i lwfansau cynghorwyr sydd ddim yn cael ei hawlio – hyn i'w gadarnhau mewn cyfarfod pellach.

**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddwyd fod yr Adroddiad Adran 6 wedi ei anfon erbyn diwedd Rhagfyr, a diolchwyd i'r Cyng Jacquie Allen am ei gwaith yn ei baratoi. Adroddwyd fod Sam Langdon o Un Llais Cymru wedi rhoi cyflwyniad diweddar i Bwyllgor Ardal Meirionnydd, ac fe gytunwyd i'w wahodd i roi cyflwyniad i'r Cyngor Tref. Cytunwyd i anfon gwybodaeth am y Gacynen Coes Felen i aelodau'r Pwyllgor Bioamrywiaeth.

**Is Bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy:** Derbyniwyd gwybodaeth am weithdy Twristiaeth Gynaliadwy gan Barc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch ar Ionawr 29ain, ac fe gytunwyd i anfon y wybodaeth ymlaen i Grŵp Busnesau'r Bala.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Un Llais Cymru:** Cafwyd adroddiad gan y Maer o gyfarfod Pwyllgor Meirionnydd o Un Llais Cymru ar Ionawr 14eg, a nodwyd y bydd y Cyfarfod Blynyddol ar Ionawr 21ain.

**Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn:** Ni chafwyd adroddiad o gyfarfodydd diweddar.

**Grŵp Busnesau'r Bala:** Ni chafwyd adroddiad o gyfarfod diweddar.

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd y bydd lansiad o wasanaeth Car Cymunedol y Bala a Phenllyn yn fuan, pryd y bydd gwahoddiad i aelodau'r Cyngor Tref i fynychu.

7. **Materion Cynllunio**:

   Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

*8.* **Materion Cyllid:**

   **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £2,869 yn y cyfri cyfredol, £30,296 yn y cyfri cadw a £513 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Rhagfyr.

   **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfoneb hysbyseb yn y Cyfnod, anfoneb Awen Meirion am faneri ac anfoneb Cwmni Pum Plwy Penllyn am y defnydd o Ganolfan Henblas am 2025.

   **iii.** Nodwyd derbyn nodyn taliad am grant Cronfa Gwynedd Ni Cyngor Gwynedd.

   **iv.** Nodwyd y wybodaeth am hawl gwario'r cyngor o dan Adran 137.

**9. Gohebiaeth:**

   i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd manylion am ffioedd parcio Cyngor Gwynedd.

   ii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y Tim Tacluso Ardal Ni yn y Bala ar W/C Ionawr 19eg.

   iii) Ymgynghoriad Fferm Wynt Foel Fach: Nodwyd y bydd ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghanolfan Henblas ar Ionawr 16eg.

   iv) Ymgynghoriaeth Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am y cynllun diogelu coed ar y Stryd Fawr.

   v) Liz Saville Roberts: Derbyniwyd gwybodaeth am ddigwyddiad i gyn filwyr ar Chwefror 5ed.

   vi) Adra: Derbyniwyd gwybodaeth am dai gweigion yn y Bala.

   vii) Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth bellach am y broses o adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Cafwyd eglurhad pam nad yw Theatr Derek Williams yn arddangos ffilmiau ar hyn o bryd. Nodwyd fod angen cysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru i ofalu nad yw'r coed ger yr Afon Dyfrdwy yn cael eu torri eleni eto. Cadarnhawyd fod trefniadau yn eu lle i ail lythrennu'r ysgrifen ar Gofeb y Milwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 9pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 5 Chwefror 2026.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)